

Adroddiad ar gyfer	<b>Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru</b>
Dyddiad	<b>18 Mehefin 2018</b>
Swyddog Arweiniol	<b>Ken Finch - Trysorydd</b>
Swyddogion Cyswllt	<b>Sandra Forrest/Julie Brown 01745 535282</b>
Pwnc	<b>Perfformiad Ariannol 2017/18</b>



## PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu perfformiad ariannol heb ei archwilio, drafft yr Awdurdod yn 2017/18 a'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2018. Mae'r adroddiad hefyd yn ceisio cael cymeradwyaeth i gario cronfeydd a glustnodwyd drosodd.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae'r tabl isod yn nodi Datganiad Incwm a Gwariant 2017/18 sy'n cadarnhau bod £93,083 o gronfeydd wrth gefn wedi cael eu defnyddio yn y flwyddyn. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r gofyniad gwreiddiol ar gyfer y gyllideb sef defnyddio £414,223 o gronfeydd wrth gefn ac mae'r alldro'n adlewyrchu'r newidiadau a gymeradwywyd i'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw. Fodd bynnag, mae pwysau'r costau'n parhau mewn nifer o feysydd allweddol gan gynnwys gwariant ar gyflogau, safleoedd a chyflenwadau. Mae Atodiad A yn darparu dadansoddiad manwl ac mae rhagor o naratif ar yr amrywiadau ar gael yn adrannau 8 i 25 o'r adroddiad hwn.

2017/18	Cyllideb £	Alldro Drafft £
Gweithwyr	23,951,205	24,361,178
Safleoedd	1,553,190	1,764,879
Cludiant	1,212,655	1,007,603
Cyflenwadau	2,953,343	3,120,039
Gwasanaethau a ddarperir gan asiantaethau	423,608	429,088
Costau Cefnogi (Cytundebau Lefel Gwasanaeth)	406,083	398,500
Cyllido Cyfalaf	3,392,000	2,635,882
<b>Cyfanswm y Gwariant</b>	<b>33,892,084</b>	<b>33,717,169</b>
Incwm	(316,584)	(438,223)
Cyfraniad refeniw i'r gwariant cyfalaf	0	49,914
<b>Gwariant net i'w ariannu</b>	<b>33,575,500</b>	<b>33,328,860</b>
<b>Cyllid</b>		
Defnyddio Cronfeydd a Glustnodwyd	0	74,500
Defnyddio'r Gronfa Gyffredinol wrth gefn	414,223	93,083
Cyfraniadau Awdurdodau Lleol	33,161,277	33,161,277
<b>Cyfanswm y Cyllid</b>	<b>33,575,500</b>	<b>33,328,860</b>

- 3 Mae paragraff 29 hyd at baragraff 39 yn darparu gwybodaeth am gronfeydd wrth gefn a darpariaethau sydd gan yr Awdurdod, ac mae manylion y rheini ar gael yn atodiad B.
- 4 Mae'r Awdurdod yn cael nifer o grantiau i gefnogi prosiectau penodol, ac mae dadansoddiad manwl ar gael yn atodiad C. Mae rhan olaf yr adroddiad yn trafod gweithgareddau cyfalaf yn y flwyddyn, ac mae manylion y rheini ar gael yn atodiad D.

## **ARGYMHELLIAD**

- 5 Bod yr aelodau'n nodi sefyllfa ariannol a pherfformiad yr Awdurdod, a'u bod yn cymeradwyo:-
  - (i) cario'r cronfeydd a glustnodwyd drosodd, fel y nodir ym mharagraffau 28 a 29.

## **SYLWADAU'R PWYLLGOR ARCHWILIO**

- 6 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio ar 4 Mehefin 2018 er mwyn i'r aelodau adolygu ei gynnwys cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub. Gosodwyd tasg i'r Pwyllgor Archwilio i sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar yr adroddiadau ariannol gan wneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub yn seiliedig ar eu canfyddiadau. Yn dilyn cyflwyniad yn amlygu'r prif feysydd yn yr adroddiad, roedd aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn argymhell bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gymeradwyo.

## **CEFNDIR**

- 7 Roedd y Cynllun Gwella a'r Cynllun Llesiant Cyfunol a gymeradwywyd ar gyfer 2017/18 yn mynd i ddarparu rhaglen gynhwysfawr o waith ataliol i helpu i gadw cymunedau'n ddiogel rhag tanau damweiniol mewn cartrefi. Yr ail amcan oedd hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n well fel bod gwaith ataliol ac ymateb brys yn parhau i fod ar gael pan a lle mae eu hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg.
- 8 Rhwng 2011/12 a 2015/16, roedd yr Awdurdod wedi gwneud arbedion o £3.5m a thrwy amsugno cynnydd megis dyfarniadau cyflog, costau cyllido cyfalaf a chynnydd chwyddiant cyffredinol ni fu raid cynyddu'r cyfraniad gan yr awdurdodau lleol.

- 9 Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod, fe wnaeth yr Awdurdod fabwysiadu strategaeth ariannol 3 blynedd (2017/18 -2019/20) ar 19 Rhagfyr 2016. Roedd y strategaeth yn cyfuno'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, cynyddu cyfraniadau ariannol a gwneud gostyngiadau i wasanaethau. Penderfynodd yr Aelodau beidio â gostwng gwasanaethau yn 2017/18 ond yn hytrach i gynllunio i ostwng gwasanaethau erbyn 2019/20. Roedd y strategaeth yn cynnwys 4% o gynnydd yn y cyfraniadau gan yr Awdurdod cyfrannol yn 2017/18 ac 1% o gynnydd pellach ar gyfer 2018/19. Byddai unrhyw ddiffyg yn y gyllideb ar gyfer blyneddoddedd 1 a 2 yn cael eu talu o gronfeydd wrth gefn. Ym mlwyddyn 3, y strategaeth a gymeradwywyd oedd bod yr Aelodau'n ystyried gostyngiadau yn y gwasanaethau er mwyn gwneud arbedion. Amcangyfrifir mai £414k fyddai'r diffyg yn y gyllideb i'w dalu o gronfeydd wrth gefn ar gyfer 2017/18.

## **Gweithgareddau Refeniw**

### **Gweithwyr**

- 10 Yn ystod 2017/18, roedd gwariant ar staff yn 70% o'r holl wariant. Fe wnaeth y costau yn ystod y flwyddyn gynyddu £1,135k i £24,361k, sef gorwariant o £410k o gymharu â'r gyllideb.
- 11 1% oedd y dyfarniad cyflog a ddisgwylid ar gyfer 2017/18, a dyna beth gafodd ei gynnwys pan osodwyd y gyllideb. Fodd bynnag, nid yw'r setliad terfynol ar gyfer dyfarniad cyflog 2017/18 i'r diffoddwyr tân wedi'i benderfynu'n derfynol felly neilltuwyd darpariaeth i dalu rhai o'r costau posibl. Mae'r costau a amcangyfrifir wedi'u codi'n uniongyrchol ar gyflogau diffoddwyr tân yn y flwyddyn, gan gynyddu'r costau cyflogau cyffredinol i staff gweithredol.
- 12 Mae'r cynnydd mewn gwariant cyflogau yn ystod 2017/18 yn adlewyrchu recriwtio staff ychwanegol i gynyddu capasiti o fewn y System RDS er mwyn cynnal y ddarpariaeth tân ar draws Gogledd Cymru.
- 13 Mae'r cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn yng nghostau staff cefnogol yn adlewyrchu'r ffaith fod y Tîm Cymorth Cymunedol newydd wedi'i gynnwys. Mae'r costau ychwanegol hyn yn cael eu cefnogi'n bennaf drwy dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol. Yn gyffredinol, mae tanwariant ar gostau staff cefnogol oherwydd yr amrywiadau a chyfandaliadau is na'r disgwyl i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.
- 14 Roedd costau hyfforddiant yn uwch na'r gyllideb oherwydd bod nifer o recriwtiaid newydd i'r system RDS a bod swyddi prentisiaid wedi cael eu llenwi.
- 15 Yn gyffredinol, mae costau pensiynau'n uwch na'r gyllideb oherwydd y cyfraniadau refeniw i'r gronfa pensiynau ar gyfer ymddeoliadau ar sail afiechyd.

## Safleoedd

- 16 £404k oedd y costau atgyweirio a chynnal a chadw ar gyfer 2017/18, sef gorwariant o £210k o gymharu â'r gyllideb. Cafodd adolygiad o fân waith cyfalaf a gwaith cynnal a chadw arfaethedig ei gynnal yn ystod 2017/18, a chadarnhaodd hwnnw y dylid categoreiddio rhai elfennau o'r gwariant fel refeniw yn hytrach na chyfalaf. Mae costau ychwanegol yn cael eu gwrthbwysu'n rhannol gan danwariant ar y gyllideb gyfalaf ar gyfer safleoedd.
- 17 Mae'r cynnydd yn y costau ynni o gymharu â'r gyllideb yn ymwneud â'r cyfleuster newydd yn Wrecsam a chynnydd yn y defnydd o ynni oherwydd y tywydd oerach y gaeaf hwn.

## Cludiant

- 18 Mae tanwariant o £205k ar y gyllideb cludiant. Mae costau tanwydd a threuliau teithio yn is na'r gyllideb wreiddiol oherwydd y gostyngiad yn y prisiau tanwydd a'r lefelau gweithgarwch yn ystod y flwyddyn. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi negodi'r yswiriant ar gyfer cerbydau modur. Mae hyn wedi cyfrannu dros £85k at y tanwariant.

## Cyflenwadau

- 19 Mae'r £212k o orwariant ar wisgoedd a golchi yn gysylltiedig â'r cynnydd yng nghostau'r contract ar gyfer rheoli cyfarpar amddiffyn personol a'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â darparu gwisgoedd a chyfarpar i staff newydd yn dilyn yr ymgyrch recriwtio.
- 20 Mae'r rhan fwyaf o'r gorwariant ar gostau cyfrifiadurol oherwydd y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau ymgynghorol ar gyfer y system gorchymyn a rheoli ac ar gyfer diogeledd TGCh mewn perthynas â'r System Integredig i Reoli Cysylltiadau (ICCS).
- 21 Mae tanwariant ar y gyllideb gysylltiadau oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys gostyngiad yng nghost rhenti ffôn a chostau ffonau symudol oherwydd newidiadau yn nhrefniadau'r contractau. Nid yw'r gyllideb ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw caledwedd cysylltiadau wedi cael ei defnyddio i gyd chwaith.
- 22 Mae ail-negodi'r contract yswiriant wedi arwain at arbedion yn yr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, gan gyfrannu £26k at y tanwariant ar gostau yswiriant.
- 23 Mae'r Awdurdod yn cael nifer o grantiau, ac mae manylion y rheini yn Atodiad C. Mae'r incwm a ddaw gan y grantiau, a'r gwariant cysylltiedig, wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad manwl o incwm a gwariant yn Atodiad A.

## **Cyllido Cyfalaf**

- 24 Mae'r costau ar y gyllideb refeniw am gyllido'r rhaglen gyfalaf yn is na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer oherwydd bod rhai prosiectau wedi cael eu cario drosodd o 2016-17 i 2017-18. Mae'r gwariant is yn 2016-17 wedi golygu hefyd y bu llai o ddyled i'w thalu. Cafwyd costau llog is hefyd drwy 'fenthycu'n fewnol', lle mae cronfeydd wrth gefn a balansau wedi cael eu defnyddio i ariannu'r rhaglen yn hytrach na chael benthyciadau newydd. Mae cymeradwyo'r newid yn y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw wedi arwain at £366k o arbedion ychwanegol ar y costau cyllido cyfalaf ar gyfer 2017/18 yn ogystal â darparu costau is ar gyfer cyllidebau'r dyfodol. £765k yw'r arbediad cyffredinol.

## **Incwm**

- 25 Mae Incwm Amrywiol yn cynnwys incwm ar gyfer staff ar secondiad i Gyfoeth Naturiol Cymru, sef secondiad y cytunwyd arno yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r pennawd hefyd yn cynnwys gostyngiad yn y ddarpariaeth dyledion drwg.
- 26 Roedd y llog ar falansau yn is na'r gyllideb wreiddiol oherwydd y cyfraddau llog isel ac oherwydd bod cronfeydd wrth gefn a balansau yn cael eu defnyddio i ariannu'r rhaglen gyfalaf.
- 27 Mae incwm Ffioedd Proffesiynol yn ymwneud â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â phrosiect Wylfa a'r Tîm Cymorth Cymunedol.

## **Tanwariant**

- 28 Roedd y gyllideb wreiddiol yn cynnwys cyfraniad o £414k o'r cronfeydd wrth gefn. Mae'r alldro drafft yn cadarnhau cyfraniad o £93 o gronfeydd wrth gefn, sef £321k yn llai na'r swm y cyllidebwyd ar ei gyfer. Mae hyn wedi digwydd yn bennaf oherwydd tanwariant o fewn y costau cyllido cyfalaf oherwydd newid i'r polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw a gymeradwywyd yn ystod 2017/18 a llithriant yn y rhaglen gyfalaf. Fodd bynnag, mae pwysau costau'n parhau mewn nifer o feysydd allweddol o wariant, gan gynnwys costau gweithwyr, safleoedd a chyflenwadau.

## **Cronfeydd a Glustnodwyd**

- 29 Mae'r aelodau wedi cael gwybod eisoes am y risgiau sy'n gysylltiedig â chontract cenedlaethol newydd ar gyfer cysylltiad radio. Er bod rhai o gostau'r prosiect wedi cael eu hariannu o'r gyllideb refeniw yn ystod 2017/18, mae angen y gronfa wrth gefn o hyd oherwydd costau ychwanegol posibl yn deillio o'r canlynol:-

- a. Os nad yw amserlenni'r cyfnod pontio yn cael eu dilyn, efallai y bydd angen ymestyn y contract cyfredol, a gallai hynny fod yn llawer drutach.
  - b. Mae'r system gyffredinol yn cael ei hariannu'n rhannol gan grant gan Lywodraeth Cymru, ac nid oes sicrwydd y bydd hyn yn parhau.
- 30 Oherwydd y sefyllfa uchod, bydd y gronfa o £300k yn parhau i gael ei chario drosodd fel rhan o gronfeydd a glustnodwyd.
- 31 Clustnodwyd cronfa o £194k yn 2015/16 yn dilyn bwriad Llywodraeth Cymru i leihau'r grant ar gyfer diogelwch tân cymunedol. Roedd y cyllid ar gyfer 2016/17 50% yn llai, ac er bod lefel y cyllid ar gyfer 2017/18 wedi cynyddu, disgwylir y bydd y grant yn y blynyddoedd i ddod yn is. Felly, peth darbodus yw cario'r gronfa hon drosodd i ariannu gwariant yn y dyfodol.
- 32 Yn 2016/17, neilltuwyd £54k o gyllid ar gyfer adran y fflyd er mwyn cael cerbyd cludo newydd. Cafwyd cerbyd newydd erbyn hyn, am £35k, ac mae'r balans yn y gronfa wedi cael ei drosglwyddo i falans y Gronfa Gyffredinol.
- 33 Cafwyd cyllid ar gyfer costau pensiynau ar sail afiechyd drwy gyfraniad o'r gronfa a glustnodwyd.

### **Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn**

- 34 Cronfa wrth gefn yw cam gwirfoddol gan yr Awdurdod i neilltuo adnoddau ariannol i'w defnyddio yn y dyfodol. Mae dal cronfa gyffredinol wrth gefn yn galluogi'r Awdurdod i ateb gofynion ariannol sy'n deillio o amrywiaeth o faterion, gan gynnwys newidiadau i'r lefelau gweithgarwch arfaethedig neu eitemau gwariant eithriol. Roedd gan yr Awdurdod £2,150k mewn cronfa gyffredinol wrth gefn ar 1 Ebrill 2017. £93k oedd y cyfraniad i'r gyllideb refeniw ar gyfer 2017/18, i ymorol am y diffyg yn y cyllid yn ystod y flwyddyn.
- 35 Balans y gronfa gyffredinol ar 31 Mawrth 2018 yw £2,057k.
- 36 Peth darbodus i'r Awdurdod yw dal cronfa gyffredinol wrth gefn i dalu unrhyw ymrwymadau amodol a allai godi ac i gynorthwyo gyda gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol.

### **Darpariaethau**

- 37 Y diffiniad o ddarpariaeth yw ymrwymiad yn y presennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol (cyfreithiol neu drwy ddehongliad) a'i bod yn debygol y bydd setliad yn cael ei wneud ryw ben yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod wedi neilltuo dwy ddarpariaeth yn ystod y flwyddyn, ac mae'r manylion ar gael isod.

- 38 Sefydlwyd darpariaeth newydd yn 2017/18 i dalu'r costau posibl sy'n deillio o ôl-gyflogau sy'n ddyledus i Ddiffoddwyr Tân Gwledig y System Amser Cyflawn yn dilyn adolygiad o'r strwythur talu a sefydlwyd ar gyfer y categori hwn o staff. Dangoswyd y costau yn erbyn cyflogau Gwledig Amser Cyflawn yn 2017/18.
- 39 Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 9 uchod, sefydlwyd darpariaeth i wrthbwyso'r costau posibl sy'n deillio o gwblhau dyfarniad 2017/18 ar gyfer staff gweithredol.

### **Cynlluniau sy'n cael Arian Grant**

- 40 Mae'r Awdurdod wedi cael cyllid ar gyfer nifer o gynlluniau, yn bennaf gan Lywodraeth Cymru. Cyfanswm y cyllid a ddaeth i law yw £1.43m ar gyfer grantiau refeniw a £596k mewn grantiau cyfalaf. Bydd yr aelodau'n ymwybodol o'r manteision a ddaw i'r gymuned oherwydd y cynlluniau hyn, gan gynnwys cynllun y Ffenics, gosod larymau mwg am ddim, a'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol. Mae rhestr gynhwysfawr o'r cynlluniau ar gael yn atodiad C.

### **Gweithgareddau Cyfalaf**

- 41 Gosodwyd y gyllideb gyfalaf wreiddiol yn Rhagfyr 2016, ac roedd yn seiliedig ar wariant newydd ac arian yn cario drosodd o flynyddoedd blaenorol.
- 42 Ar ôl cau cyfrifon 2016/17, cafodd y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2017/18 ei hadolygu i ymgorffori unrhyw gynlluniau a oedd wedi'u haildrefnu o 2016/17. Yna, cafodd y gyllideb ei chynyddu £3.18m i £5.47m.
- 43 Bu tanwariant ar y gyllideb ar gyfer gwaith cynnal a chadw a mân waith adeiladu a gynlluniwyd, a hynny oherwydd bod rhai eitemau llai o wariant cyfalaf wedi'u trosglwyddo i'r refeniw.
- 44 Mae'r gwariant ar beirannau arbennig yn ymwneud â chyfarpar a gafodd ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i liniaru llifogydd. Mae'r gwariant yn cynnwys y taliad terfynol am y Pwmp Cyfaint Mawr a'r cychod achub o ddŵr y mae'r Gwasanaeth wedi'u cael yn ddiweddar.
- 45 Mae'r gwariant ar dechnoleg gwybodaeth a chyfarpar arall yn is na'r gyllideb oherwydd bod nifer o brosiectau trawsffurfiol wedi cael eu haildrefnu. Bydd y gyllideb ar gyfer y prosiectau penodol hyn yn cael ei chario drosodd i 2018/19.
- 46 Yn 2017/18 fe wnaeth yr Awdurdod dderbyn £569k drwy werthu asedau cyfalaf gan gynnwys hen Orsaf Dân Wrecsam. Cafodd yr holl dderbyniadau eu defnyddio'n llawn yn ystod 2017/18 er mwyn cynorthwyo i dalu costau'r rhaglen gyfalaf, gan leihau'r angen am fenthyciadau allanol.